# Y Pwyllgor Craffu - Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg

## Adroddiad Blynyddol

## Y Broses Graffu yn Sir Gaerfyrddin

onestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Unior
yloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bo
gored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro G
yfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestr
niondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloy
od yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Mo
wella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro G
yfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestr
niondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloy
od yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Mo
wella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi

sirgar.llyw.cymru

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

## Cynnwys


Rhagair gan y Cadeirydd ... 3
1. Cyflwyniad ... 5
2. Trosolwg o waith y Pwyllgor 2023/24 ... 5
2.1 Rôl Craffu ... 5
2.2 Y Blaengynllun Gwaith ... 6
2.3 Cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg ... 7
2.4 Monitro Perfformiad / Materion Strategol ... 7
2.4.1 Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin 2022/23 ... 7
2.4.2 Cynlluniau Cyflawni Is-adrannol Drafft 2023/24 ... 8
2.4.3 Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol 10 mlynedd ... 8
2.4.4 Adroddiadau Perfformiad 2023/24 sy'n berthnasol i'r Pwyllgor ... 9
2.4.5 Grwpiau Ffocws Strategol ... 9
2.4.6 Y wybodaeth ddiweddaraf am gyhoeddiadau Adroddiadau Estyn ... 9
2.4.7 Camau Gweithredu ac Atgyfeiriadau ... 9
2.5 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf ... 10
2.5.1 Adroddiadau Monitro Cyllideb ... 10
2.5.2 Adroddiad Alldro'r Gyllideb Refeniw 2022/23 ... 10
2.5.3 Strategaeth Cyllideb Refeniw 2024/25 tan 2026/27 ... 10
2.5.4 Cyllidebau Ysgolion ... 11
2.6 Addysg ... 12
2.6.1 Cefnogi Ymddygiad ... 12
2.6.2 Lefelau Presenoldeb Ysgolion ... 12
2.6.3 Arolygiad Estyn Gwasanaethau Addysg Sir Gaerfyrddin ... 13
2.6.4 Adolygiad o Dderbyn Disgyblion i Ysgolion Cynradd (Polisi Plant sy'n Codi'n 4 Oed) 14
2.6.5 Adolygiad o Drefniadau Staff Cyflenwi yn Sir Gaerfyrddin ... 14
2.6.6 Diweddariad ynghylch Recriwtio a Staffio mewn Ysgolion ... 15
2.6.7 Gwasanaeth Cerdd ... 15
2.6.8 PRYDAU YSGOL AM DDIM I BOB PLENTYN YSGOL GYNRADD ... 16
2.7 Pobl Ifanc ... 16
2.7.1 Diweddariad ynghylch y Cynnig Gofal Plant i Gymru ... 16
2.7.2 Diweddariad ynghylch gwaith Cyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin ... 17
2.8 Y Gymraeg ... 18
2.8.1 Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg – Adroddiad Blynyddol ... 18
3. Gweithgarwch Craffu Arall ... 18
3.1 Gorchwyl a Gorffen ... 18
3.2 Ymweliadau Safle ... 19
3.3 Sesiynau Datblygu ... 19
4. Effaith ... 20
4.1 Sut mae craffu wedi gwneud gwahaniaeth eleni? ... 20
5. Ymgysylltu â'r Cyhoedd ... 21

6. Heriau.......... 22
7. Gwaith yn y Dyfodol .......... 22
8. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu .......... 22
9. Presenoldeb .......... 23

# Rhagair gan y Cadeirydd



Fel Cadeirydd y Pwyllgor, mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg ar gyfer blwyddyn y cyngor 2023/24.

Mae'r Pwyllgor yn parhau i ystyried heriau parhaus y Cyfnod ar ôl Covid a'r Argyfwng Costau Byw sy'n effeithio ar anghenion addysgol a chymdeithasol ein cymuned. Mae dull craffu cyn gwneud penderfyniad y Pwyllgor yn galluogi aelodau i ddylanwadu ar gamau gweithredu ac ymateb iddynt yn ystod y broses o gynllunio a datblygu polisïau a strategaethau yn ogystal ag asesu perfformiad dros feysydd gwasanaeth perthnasol. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi nodi ei bynciau ei hun i ymchwilio iddynt, ac mae wedi parhau i asesu themâu parhaus.

Yn ystod y flwyddyn bu'r Pwyllgor yn craffu ar gynnydd o ran Amcanion Llesiant y Cyngor, yn enwedig Dechrau’n Dda a Chymunedau Ffyniannus. Cyflwynodd y Pwyllgor sylwadau i Lywodraeth Cymru ynghylch talu'r costau ychwanegol o ddarparu Prydau Ysgol am Ddim i Bob Disgybl ar draws ardaloedd gwledig. Wrth ystyried y gwaith o gyflwyno'r ddarpariaeth ar draws Sir Gaerfyrddin, pwysleisiodd y Pwyllgor arwyddocâd cyllid y Grant Datblygu Disgyblion sydd ar gael i ysgolion gan nad oedd yn ofynnol bellach i rieni/gwarcheidwaid wneud cais am brydau ysgol am ddim.

Ym mis Hydref, bu'r Pwyllgor yn ystyried crynodeb o'r wyth Grŵp Ffocws Strategol a oedd yn manylu ar gylch gwaith, aelodaeth, trefniadau cyfarfodydd a dulliau adrodd ar gyfer pob maes blaenoriaeth addysg. Dechreuodd y Pwyllgor adolygu cynnydd pob un o'r Grwpiau Ffocws yn unigol a bydd yn parhau â rhaglen adolygu dwy flynedd nes bod cynnydd a darpariaeth yr holl Grwpiau Ffocws wedi'u hasesu.

Ar ôl ystyried adroddiadau'r Gyllideb Refeniw, roedd y Pwyllgor o'r farn bod Polisi Cyni Cyllidol Llywodraeth y DU yn anghynaladwy. Cyflwynwyd sylwadau i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn mynegi pryderon sylweddol ynghylch toriadau i gyllid sy'n effeithio ar ein plant a'n pobl ifanc. Bu'r Aelodau hefyd yn ystyried y pwysau ariannol a wynebir gan ysgolion unigol, ac mae'r diffyg ariannol rhagamcanol yn parhau i beri pryder. Cymerodd y Pwyllgor ran yn yr ymgynghoriadau ar y Rhaglen Moderneiddio Addysg a'r Polisi Plant sy'n Codi'n 4 Oed.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau ar Lefelau Presenoldeb Ysgolion a Chefnogi Ymddygiad ar draws ysgolion y sir. Roedd cyflwyniadau gan Ysgol Gyfun Coedcae ac Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth yn darparu astudiaethau achos ar gymorth pwrpasol a'r camau a gymerwyd i wella presenoldeb disgyblion. Bydd y Pwyllgor yn ailystyried y ddau fater hyn i olrhain cynnydd a rhannu arfer da.

Rhannwyd cyhoeddiadau Adroddiadau Estyn gyda'r aelodau i nodi materion sy'n dod i'r amlwg, a chafodd Adroddiad Arolygiad Estyn o Wasanaethau Addysg Sir Gaerfyrddin ei ystyried gan y Pwyllgor. Croesawodd yr Aelodau yr elfennau cadarnhaol yn yr adroddiad a bydd y tri argymhelliad ar feysydd i'w gwella yn parhau i gael eu monitro dros y flwyddyn nesaf.

Yn ystod y flwyddyn bu'r Pwyllgor yn adolygu Trefniadau Recriwtio, Staffio a Staff Cyflenwi mewn Ysgolion yn y sir. Cynhaliwyd gweithdy ar ffederasiynau ysgolion, gan roi cipolwg ar recriwtio a goblygiadau cyllideb. Ymchwilir ymhellach i'r ddarpariaeth o ran Staff Cyflenwi a Goruchwylwyr Cyflenwi yn dilyn cynllun peilot yn Awdurdod Lleol Ynys Môn.

Ym mis Ionawr, roedd y Pwyllgor wedi cymeradwyo hyrwyddo'r Cynnig Gofal Plant Cymru i ddarparu gofal plant fforddiadwy ar draws y sir. Bu'r Aelodau yn ystyried y ddarpariaeth a'r ystadegau lleol mewn perthynas â chofrestriadau, ceisiadau a gwasanaeth hawliadau taliadau cyflym. Cafodd ein pobl ifanc hŷn eu cynrychioli gan Gyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin ym mis Mai. Roedd eu cyflwyniad yn hyrwyddo materion pwysig fel Bwlio, Hawliau Plant, Iechyd Meddwl, Urddas Mislif a Thrais Domestig, ac yn rhoi cipolwg ar eu rôl o ran gwneud penderfyniadau - yn lleol ac yn genedlaethol.

Mwynhaodd y Pwyllgor gerddoriaeth fyw gan bobl ifanc sy'n rhan o'r Gwasanaeth Cerdd, a oedd yn un o uchafbwyntiau cyfnod y Nadolig. Roedd y cyflwyniad yn rhoi trosolwg o ddarpariaeth y gwasanaeth cerddoriaeth yng Nghyngor Sir Caerfyrddin, a oedd wedyn yn llywio ystyriaethau cyllidebol yn y Flwyddyn Newydd. Nododd yr Aelodau bwysigrwydd addysg cerddoriaeth mewn perthynas â datblygiad personol ein plant a'n pobl ifanc.

Cafodd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ei ystyried gan y Pwyllgor, gan wneud asesiadau ar gynnydd yn erbyn y saith canlyniad a nodir yn y Cynllun. Roedd crynodeb o'r gwaith parhaus ar Gontinwwm y Gymraeg wedi codi pryderon ynghylch recriwtio athrawon sy'n gallu cyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg, yn lleol ac yn genedlaethol. Ystyriwyd diweddariad ar y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion ac adolygodd y Pwyllgor yr opsiynau o ran darparu'r Gwasanaeth yn y dyfodol.

Hoffwn ddiolch i holl aelodau'r Pwyllgor am eu cyfraniad gwerthfawr dros y flwyddyn ddiwethaf gan roi safbwynt mewnol ac allanol ar effeithiolrwydd darpariaeth yr Awdurdod. Hoffwn hefyd ddiolch i'r Gwasanaethau Democrataidd ac i'r Swyddogion Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg am eu hymroddiad a'u proffesiynoldeb wrth gefnogi gwaith y Pwyllgor. Mae eu gwaith paratoi ar gyfer Gweithdai a Sesiynau Datblygu yn ogystal â Chyfarfodydd ffurfiol yn sylweddol ac yn sail i waith y Pwyllgor ar draws pob maes. Diolch yn fawr .

Bydd agenda'r Pwyllgor dros y flwyddyn ddiwethaf yn parhau o ran rhaglenni gwaith yn y dyfodol, a rhoddir rhywfaint o hyblygrwydd i ganiatáu i aelodau fod yn rhagweithiol wrth i faterion newydd godi. Edrychaf ymlaen at barhau i gydweithio ag Aelodau, Aelodau Cyfetholedig a Swyddogion yn y flwyddyn i ddod.

**Y Cynghorydd Carys James**
**Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg**

# 1. Cyflwyniad

Mae'r swyddogaeth Graffu yn elfen allweddol o drefniadau llywodraethu y Cyngor Sir a'i broses o wneud penderfyniadau. Er nad yw'n gorff sy'n gwneud penderfyniadau, mae Craffu yn fwyaf effeithiol pan fydd yn manteisio ar y potensial i ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir gan y Cyngor a chyrff partner ar draws y sir.

Mae Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl Bwyllgorau Craffu*"baratoi adroddiad blynyddol sy'n egluro gweithgareddau'r Pwyllgor dros y flwyddyn flaenorol"*.

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg yn ystod blwyddyn y cyngor 2023/24. Ei nod yw rhoi cyfle i aelodau fwrw golwg ar ei gyflawniadau, nodi meysydd arferion gorau a thynnu sylw at feysydd i'w gwella er mwyn gwella'r swyddogaeth graffu ymhellach. Yn ogystal, efallai y bydd yr adroddiad hwn yn hwyluso trafodaeth ar eitemau y gellid eu nodi i'w cynnwys mewn rhaglenni gwaith yn y dyfodol.

Caiff y Pwyllgor ei gadeirio gan y Cynghorydd Carys Jones ac mae'n cynnwys 14 o Aelodau Etholedig a 5 o Aelodau Cyfetholedig â Phleidlais (3 rhiant-lywodraethwr etholedig, 1 cynrychiolydd o'r Eglwys yng Nghymru ac 1 cynrychiolydd o'r Eglwys Gatholig Rufeinig). Mae Aelodau'r Cabinet yn mynychu cyfarfodydd fel sy'n ofynnol er mwyn annerch y Pwyllgor ar feysydd yn eu portffolios priodol.

Darperir cymorth gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd a Swyddogion eraill y Cyngor pan fo angen.

# 2. Trosolwg o waith y Pwyllgor 2023/24

## 2.1 Rôl Craffu

Mae pob Pwyllgor Craffu yn gyfrifol am oruchwylio a chraffu ar Bortffolios Cabinet penodol a'u priod wasanaethau. Mae'r Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg yn gyfrifol am graffu ar bortffolio Addysg a'r Gymraeg y Cabinet a'r meysydd gwasanaeth perthnasol:-

| | |
|---|---|
| Ysgolion a Gwasanaethau Addysg o 3 - 19 | Gwasanaeth Rhanbarthol Gwella Ysgolion |
| Gwella Ysgolion, Trefniadaeth a Pherfformiad | Cynllun Strategol a Fforwm y Gymraeg mewn Addysg |
| Addysg, Llesiant a Chynhwysiant | Dysgu Oedolion yn y Gymuned gan gynnwys Cymraeg i Oedolion |
| Cynnal Ysgolion a Gwasanaethau Llywodraethwyr | Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid |

| | |
|---|---|
| Addysg Feithrin a Safonau | Derbyn Disgyblion i Ysgolion |
| Pobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) | Gwasanaethau Ymddygiadol |
| Mae'r Consortia Rhanbarthol (Partneriaeth) yn rhan o Bortffolio'r Arweinydd ar hyn o bryd. Byddai unrhyw gonsortiwm addysg sy'n cael ei gychwyn yn y dyfodol yn rhan o'r Portffolio Addysg a'r Gymraeg). | Presenoldeb yn yr Ysgol |
| Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Sir Gaerfyrddin | Data a systemau addysg |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol | Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae |
| Adrodd ar ddatblygiad y Gymraeg / Safonau | Gwasanaeth Cerdd |
| Ysgolion Iach | Gwasanaethau Arlwyo Mewn Ysgolion |
| Estyn | Addysg Ôl-16 a Chyllid a'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol |
| Seicoleg Addysg | Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion |
| Tîm Addysg a Llesiant | |

Yn unol â'i feysydd cyfrifoldeb, bydd y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg yn ceisio:-

- Archwilio pa mor dda y mae'r Cabinet a'r Cyngor yn perfformio;
- Dwyn y Cabinet i gyfrif a cheisio hyrwyddo proses benderfynu sy’n agored ac yn dryloyw;
- Monitro perfformiad gwasanaethau a swyddogaethau’r Cyngor;
- Adolygu penderfyniadau’r Cabinet lle bo hynny’n briodol;
- Cynorthwyo’r Cabinet i ddatblygu, monitro, ac adolygu polisïau;
- Craffu ar y strategaeth cyllideb refeniw a’r rhaglenni buddsoddiadau cyfalaf arfaethedig, a hynny fel rhan allweddol o’r broses ymgynghori;
- Galluogi sefydliadau a phartneriaid allanol i gyfrannu at y gwaith o ystyried materion a all effeithio ar y modd y cyflawnir blaenoriaethau’r Cyngor a’r sir gyfan.

## 2.2 Y Blaengynllun Gwaith

Mae'r broses graffu yn chwarae rhan allweddol o ran hyrwyddo atebolrwydd ym mhroses gwneud penderfyniadau yr Awdurdod Lleol. Hefyd mae’r broses yn ddefnyddiol o ran sicrhau bod polisïau’r Cyngor yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac annog cydweithio ag asiantaethau allanol.

Mae Pwyllgorau Craffu yn gweithredu dull craffu cyn penderfynu sy'n galluogi'r Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg i gymryd perchnogaeth o'i Flaengynllun Gwaith a phenderfynu pa adroddiadau o Flaengynllun Gwaith y Cabinet y mae'n dymuno eu hystyried. Gall Pwyllgorau Craffu hefyd nodi eu pynciau eu hunain, sy'n berthnasol i'w cylch gwaith, i'w hadolygu; at hynny, mae'n bosibl y bydd y Cabinet yn gwahodd Pwyllgorau Craffu perthnasol i graffu ar benderfyniad oedd ar y gweill.

Defnyddiodd y Pwyllgor fframwaith Gateway y Ganolfan Llywodraethu a Chraffu i ddatblygu ei Flaengynllun Gwaith ar gyfer blwyddyn y cyngor 2023/24 a adolygwyd yn rheolaidd. Roedd hyn yn darparu dull hawdd ei reoli, hyblyg a chadarn o graffu ac yn sicrhau bod y meysydd i'w hadolygu yn cael eu hystyried ar sail blaenoriaeth ac mewn modd amserol.

Yn hyn o beth, penderfynodd y Pwyllgor ddosbarthu adroddiadau cyfnodol ynghylch perfformiad a monitro'r gyllideb i aelodau y tu allan i'r rhaglen cyfarfodydd ffurfiol. Roedd y broses hon yn golygu bod modd gosod unrhyw faterion perthnasol a nodwyd gan aelodau ar yr agenda ffurfiol i'w hystyried ymhellach, fel y bo'n briodol. Arweiniodd manteision y dull hwn o weithio at wella’r drafodaeth a’r cyfraniadau yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu. At ei gilydd, roedd agendâu’r cyfarfodydd yn gyson â'r rheiny a amlinellwyd yn y Blaengynllun Gwaith.

## 2.3 Cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg

Trefnir cyfarfodydd o bryd i'w gilydd i ystyried materion ac adroddiadau sydd wedi'u cynnwys yn ei Flaengynllun Waith. Cynhaliodd y Pwyllgor 5 cyfarfod ffurfiol yn ystod blwyddyn y cyngor 2023/24 a chynhaliwyd pob cyfarfod yn unol â'r darpariaethau a nodir yn Adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Er mwyn ategu'r gwaith a wnaed yn ystod cyfarfodydd ffurfiol, efallai y bydd y Pwyllgor hefyd yn cyflawni swyddogaethau craffu eraill megis Gorchwyl a Gorffen, Craffu Un Diwrnod ac ymweliadau â sefydliadau a ddaw o fewn ei faes gorchwyl ynghyd â sesiynau datblygu a gweithdai.

## 2.4 Monitro Perfformiad / Materion Strategol

Un o brif rolau'r Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg yw monitro perfformiad y gwasanaethau a'r swyddogaethau sydd o fewn ei faes gorchwyl. Yn unol â hynny, mae'r Pwyllgor yn adolygu adroddiadau monitro perfformiad a gwahanol strategaethau a chynlluniau i roi asesiad cytbwys o'r perfformiad ar draws y meysydd gwasanaeth perthnasol.

### 2.4.1 Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin 2022/23

Ym mis Medi 2023 cafodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol 2022/23 y Cyngor ar Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor 2022-2027 a luniwyd yn unol â'r darpariaethau perthnasol o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Roedd yr adroddiad yn manylu ar y cynnydd a wnaed o ran Amcanion Llesiant y Cyngor, ynghyd â hunanasesiad y Cyngor yn erbyn gofynion perfformiad y flwyddyn ariannol flaenorol. Roedd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau Gwasanaeth a Thematig o fewn ei faes gorchwyl yn dilyn yr Amcanion Llesiant:

| | |
|---|---|
| **Amcan Llesiant 1:** | Galluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd (Dechrau'n Dda). |
| **Amcan Llesiant 3:** | Galluogi ein cymunedau a'n hamgylchedd i fod yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus (Cymunedau Ffyniannus). |

**Canlyniad:**
**Yn ei gyfarfod ar 30 Hydref 2023, bu'r Cabinet yn ystyried yr holl adborth a dderbyniwyd ac argymhellodd i'r Cyngor gymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2022/23. Yn dilyn hynny gwnaeth y Cyngor fabwysiadu'r adroddiad yn ei gyfarfod ar 8 Tachwedd 2023.**

### 2.4.2 Cynlluniau Cyflawni Is-adrannol Drafft 2023/24

Ym mis Ionawr 2024 bu'r Pwyllgor yn ystyried y Cynlluniau Cyflawni Gwasanaethau Is-adrannol sy'n berthnasol i Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Plant 2023/24, fel a ganlyn:-

- Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant
- Mynediad i Addysg
- Strategaeth a Chymorth i Ddysgwyr
- Gwasanaethau Plant

Roedd y cynlluniau hyn yn pennu'r camau a'r mesurau strategol i'w gweithredu ym mhob is-adran er mwyn i'r Cyngor wneud cynnydd mewn perthynas â'i amcanion llesiant, ei flaenoriaethau thematig a blaenoriaethau'r gwasanaeth. Rhoddodd hyn gyfle i'r Pwyllgor ystyried y blaenoriaethau a amlinellir ar gyfer yr Is-adran a gwneud sylwadau yn eu cylch.

Wrth ystyried yr adroddiad, bu'r Pwyllgor yn cydnabod er bod Llywodraeth Cymru wedi cynyddu gwerth y Prydau Ysgol Am Ddim i bob Plentyn Ysgol Gynradd o £2.90 i £3.20, nad oedd y swm yn adlewyrchu'r gwir gost i'r Awdurdod am ddarparu prydau ysgol maethlon o ansawdd uchel i bob ysgol gynradd.

**Canlyniad:**
**Cymeradwyodd y Pwyllgor Cynlluniau Cyflawni Gwasanaeth Is-adrannol Drafft 2024/25 sy'n berthnasol i gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Plant.**

**Mae'r Pwyllgor wedi cyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru yn gofyn am gymhwyso lefelau ariannu pwrpasol ar draws gwahanol siroedd i dalu'r costau ychwanegol a ysgwyddir gan ardaloedd gwledig.** Rhoddwyd ymateb gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg yn cadarnhau bod cyllid ar gyfer darparu prydau ysgol yn cael ei ddarparu i awdurdodau lleol drwy'r Grant Cynnal Refeniw, sy'n cael ei ddyrannu a'i ddosbarthu gan ddefnyddio methodoleg sy'n cydnabod prinder mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru. **At hynny, eglurwyd bod y cyllid grant ychwanegol i gefnogi ehangu prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd erbyn mis Medi 2024 wedi cael ei ddarparu yn dilyn adolygiad o gostau prydau ysgolion cynradd yng Nghymru a gynhaliwyd gyda Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn 2023.**

### 2.4.3 Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol 10 mlynedd

Gwnaed cais gan y Pwyllgor i adolygu'r Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol 10 mlynedd a oedd â'r nod o roi gweledigaeth ar sut y byddai'r Cyngor yn darparu swyddogaethau'r gwasanaethau cymdeithasol dros y degawd nesaf. Y bwriad gwreiddiol oedd i'r Pwyllgor gael yr adroddiad hwn ym mis Hydref 2023 ac yna ym mis Rhagfyr 2023,

Ionawr 2024 a Mawrth 2024. Yn anffodus, nid yw'r strategaeth wedi'i chwblhau eto ac felly bydd yr adroddiad yn cael ei ohirio tan 2024/25.

### 2.4.4 Adroddiadau Perfformiad 2023/24 sy'n berthnasol i'r Pwyllgor

Yn unol â'r protocolau a sefydlwyd gan y Pwyllgor, cafodd adroddiadau monitro perfformiad chwarterol sy'n berthnasol i faes gorchwyl y Pwyllgor eu dosbarthu drwy e-bost i aelodau fel a ganlyn:-

- Ionawr 2024 – Chwarter 2 Monitro Perfformiad 2023/24
- Ebrill 2024 – Chwarter 3 Monitro Perfformiad 2023/24

Roedd y wybodaeth yn rhoi hunanwerthusiad o berfformiad yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol diwygiedig sydd wedi'i ymgorffori yn Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau godi unrhyw bryderon neu faterion yr oedd angen eu hystyried ymhellach yng nghyfarfod ffurfiol y Pwyllgor, yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Graffu.

**Canlyniad:-**
**Roedd yr adroddiadau yn galluogi aelodau i fonitro perfformiad mewn perthynas â'r Amcanion Llesiant sy'n berthnasol i faes gorchwyl y Pwyllgor ac sy'n cyd-fynd â Strategaeth Gorfforaethol yr Awdurdod.**

### 2.4.5 Grwpiau Ffocws Strategol

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad ym mis Hydref 2023 a oedd yn crynhoi cyflawni amcanion busnes y Gwasanaeth Addysg drwy gyfres o Grwpiau Ffocws Strategol cydweithredol. Roedd yr adroddiad yn darparu crynodeb o'r 8 Grŵp Ffocws Strategol a oedd yn cyd-fynd â phob un o'r meysydd blaenoriaeth adrannol ac yn manylu ar gylch gwaith, aelodaeth, trefniadau cyfarfodydd a dulliau adrodd ar gyfer pob grŵp.

**Canlyniad:-**
**Penderfynodd y Pwyllgor ystyried diweddariadau cyfnodol ynghylch cynnydd a fyddai'n adolygu pob un o'r Grwpiau Ffocws Strategol.**

### 2.4.6 Y wybodaeth ddiweddaraf am gyhoeddiadau Adroddiadau Estyn

Dosbarthwyd gohebiaeth yn manylu ar y cyhoeddiadau adroddiad Estyn perthnasol diweddaraf i'r Pwyllgor drwy e-bost ym mis Mehefin 2023, Hydref 2023, Rhagfyr 2023, Ionawr 2024, Ebrill 2024 a Mai 2024 mewn perthynas â'i arolygiad a'i adroddiadau thematig yn ymwneud ag addysg a hyfforddiant.

**Canlyniad:-**
**Roedd yr adroddiadau'n hysbysu'r Pwyllgor am ddatblygiadau/materion sy'n dod i'r amlwg ac yn rhoi cyfle i'r aelodau godi unrhyw faterion i'w hystyried ymhellach.**

### 2.4.7 Camau Gweithredu ac Atgyfeiriadau

Yn ystod blwyddyn y cyngor gwnaed ceisiadau am eitemau ychwanegol gan aelodau'r Pwyllgor i'w cynorthwyo i gyflawni eu rôl graffu. Cyflwynwyd diweddariadau ynghylch Camau Gweithredu ac Atgyfeiriadau i'r Pwyllgor yn ei gyfarfodydd a gynhaliwyd ym mis

Mehefin 2023 a Rhagfyr 2023 a oedd yn manylu ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r ceisiadau hyn.

## 2.5 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf

### 2.5.1 Adroddiadau Monitro Cyllideb

Yn unol â'r protocolau a sefydlwyd gan y Pwyllgor, dosbarthwyd adroddiadau chwarterol ar y cyllidebau refeniw a chyfalaf adrannol a chorfforaethol i aelodau fel a ganlyn:-

- Mehefin 2023 - mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 28 Chwefror 2023;
- Hydref 2023 - mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 30 Mehefin 2023;
- Rhagfyr 2023 - mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 31 Awst 2023.
- Ionawr 2024 – mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 31 Hydref 2023
- Ebrill 2024 – mewn perthynas â’r sefyllfa gyllidebol ar 31 Rhagfyr 2023 a
- Mai 2024 - mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 31 Mawrth 2024.

Roedd yr adroddiadau yn galluogi'r aelodau i fonitro gwariant ym mhob maes gwasanaeth a’r cynnydd a wnaed o ran unrhyw waith cyfalaf. Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau godi unrhyw bryderon neu faterion yr oedd angen eu hystyried ymhellach yng nghyfarfod ffurfiol y Pwyllgor, yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Graffu.

### 2.5.2 Adroddiad Alldro'r Gyllideb Refeniw 2022/23

Yn ogystal â monitro'r cyllidebau refeniw a chyfalaf presennol, dosbarthwyd Adroddiad Alldro'r Gyllideb Refeniw 2022/23 hefyd i'r Pwyllgor ym mis Hydref 2023 a oedd yn rhoi sefyllfa ariannol diwedd blwyddyn i'r Pwyllgor. Dangosodd y crynodeb fod y Gwasanaeth Addysg a Phlant wedi adrodd amrywiant net o -£838k yn erbyn ei gyllideb gymeradwy. O ran yr adroddiad arbedion, cyflawnwyd cyfanswm o £379k o'r arbedion rheoli yn erbyn targed o £388k. Roedd yr arbedion polisi o £150k a gyflwynwyd ar gyfer 2022/23 heb eu cyflawni.

### 2.5.3 Strategaeth Cyllideb Refeniw 2024/25 tan 2026/27

Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2024 ymgynghorwyd â'r Pwyllgor ar Strategaeth Cyllideb Refeniw 2024/25 i 2026/27. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r Strategaeth Cyllideb Refeniw arfaethedig ar gyfer 2024/25 i'r Pwyllgor, ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2025/2026 a 2026/27.

Roedd y Pwyllgor o'r farn bod polisi cyni Llywodraeth y DU yn anghynaliadwy, a mynegwyd na allai setliad dilynol Llywodraeth Cymru ddarparu ar gyfer llesiant plant a phobl ifanc yn y dyfodol. Yn unol â hynny, er bod y Pwyllgor yn derbyn y strategaeth o fewn yr hinsawdd ariannol bresennol, cyflwynwyd sylwadau i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn mynegi pryderon sylweddol ynghylch toriadau cyllid na ellir eu hatal yr ystyriwyd eu bod yn amddifadu cenhedlaeth o blant a phobl ifanc yn Sir Gaerfyrddin o'r cyfleoedd gorau posibl mewn bywyd. Gwnaed cais hefyd i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ddatrys y mecanwaith ar gyfer ariannu codiadau pensiwn athrawon, a rhoi sicrwydd y byddai cyllid digonol yn cael ei ddosbarthu'n briodol i Awdurdodau Lleol.

**Canlyniad:**

**Fel rhan o'r ymgynghoriad eang a gynhaliwyd gan yr Awdurdod ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2024/25 i 2026/27, ystyriodd y Pwyllgor y Strategaeth a chymeradwyodd gynigion y gyllideb, fel y'u cyflwynwyd. Mabwysiadwyd Strategaeth y Gyllideb wedyn gan y Cabinet a'r Cyngor yn eu cyfarfodydd ym mis Chwefror 2024, yn amodol ar rai diwygiadau.**

**Ymatebodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg i sylwadau'r Pwyllgor mewn perthynas â'i bryderon a'i anfodlonrwydd o ran y dyraniad cyllideb arfaethedig ar gyfer dyfarniadau cyflog ysgolion ac athrawon. Roedd yr ohebiaeth yn manylu ar fethodoleg ariannu darpariaeth cyn 16 oed mewn ysgolion yng Nghymru ac, wrth gydnabod y cyd-destun ariannol heriol, nododd fod cyllideb Llywodraeth Cymru werth hyd at £1.3bn yn llai mewn termau real na phan gafodd ei gosod yn 2021.**

**Serch hynny, rhoddwyd sicrwydd, yn dilyn cyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth y DU y byddai'n cynyddu ei setliad llywodraeth leol, y byddai'r dyraniad canlyniadol i lywodraeth leol, yn rhannol, yn cael ei ddefnyddio i gefnogi pwysau ym maes addysg, gan gynnwys cyflog athrawon. At hynny, cadarnhawyd bod uno grantiau addysg awdurdodau lleol cyn-16 oed ar gyfer 2024-25 yn darparu'r un lefel o gyllid yn erbyn grantiau tebyg a ddarparwyd i awdurdodau lleol yn 2023-24 a oedd yn adlewyrchu cynnydd o 3.2% yn erbyn cyllideb ddangosol 2024-25 ar gyfer yr un grantiau hynny.**

**O ran pensiynau athrawon, cadarnhaodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg fod Llywodraeth Cymru yn gofyn am gadarnhad brys gan Lywodraeth y DU y byddai'r costau hyn yn cael eu talu'n llawn, ac y byddai'n berthnasol i bob cynllun pensiwn gwasanaethau cyhoeddus heb ei ariannu.**

### 2.5.4 Cyllidebau Ysgolion

Ym mis Hydref 2023, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad cyllidebau ysgolion a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa'r Awdurdod ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ar 31 Mawrth 2023 ar gyfer ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig yn Sir Gaerfyrddin. Adolygwyd ffigurau tebyg hefyd ar gyfer 2020/21 a 2021/22.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am y prif bwysau ariannol y mae ysgolion yn eu hwynebu, a oedd, ar y cyfan, i'w priodoli i gostau staffio. Cydnabuwyd hefyd fod cyllidebau ysgolion yn cael eu pennu yn unol â'r fformiwla ariannu gyffredinol ar gyfer ysgolion ac yn seiliedig ar nifer y disgyblion. Cafodd y Pwyllgor grynodeb o'r dulliau cymorth parhaus a gynigir i ysgolion, a oedd yn cynnwys 'Panel Adolygu Newid' lle cafodd syniadau ar gyfer arbedion eu harchwilio gyda chynrychiolwyr o wasanaethau addysg, Adnoddau Dynol a Chyllid.

**Canlyniad:-**
**Bu'r Pwyllgor yn cydnabod bod y mater diffygion ariannol ysgolion wedi'i waethygu ymhellach gan gostau cynnal a chadw adeiladau, lle na ystyriwyd bod y ddarpariaeth gyllidebol bresennol yn ddigonol i dalu costau atgyweirio. Yn unol â hynny, roedd y diffygion cronnus yn y blynyddoedd i ddod yn parhau i fod yn bryder ac yn risg sylweddol i'r Awdurdod y byddai angen ei ystyried fel rhan o'r Rhaglen Moderneiddio Addysg.**

**Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad pellach ar gyllidebau ysgolion i'w gyflwyno i'w hystyried fel rhan o'i Flaengynllun Gwaith ar gyfer 2024/25.**

## 2.6 Addysg

### 2.6.1 Cefnogi Ymddygiad

Ym mis Mehefin 2023 adolygodd y Pwyllgor y sefyllfa bresennol mewn perthynas â chefnogi ymddygiad gwell ar draws ysgolion y sir. Roedd cyflwyno Model Pedwar Cam Cymorth Ymddygiad a Llesiant Emosiynol yn darparu gwasanaethau cymorth ymddygiad teg a chyson ar draws y sir. Croesawodd y Pwyllgor y £500k o gyllid sydd wedi'i roi i ysgolion uwchradd i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Model Pedwar Cam a oedd yn cynnwys gwella sgiliau ysgolion a staff i ddiwallu anghenion dysgwyr, darparu cymorth 'yn yr ysgol' i staff a dysgwyr, cymorth arbenigol o ran Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol mewn perthynas ag addysg heblaw yn yr ysgol a darparu cymorth pwrpasol i rai o'r dysgwyr mwyaf agored i niwed yn yr Awdurdod Lleol.

Ar hynny, cafodd y Pwyllgor gyflwyniad manwl gan Ysgol Gyfun Coedcae a oedd yn canolbwyntio ar y ffordd yr oedd yr ysgol wedi creu diwylliant o ddiogelu a oedd yn darparu cymorth pwrpasol ac effeithiol iawn i sicrhau llesiant disgyblion ac i ddiwallu anghenion y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Roedd yr ymyriadau a'r mentrau a wnaed gan yr ysgol wedi arwain at werth ychwanegol cadarnhaol lle roedd disgyblion agored i niwed wedi rhagori ar lefelau cenedlaethol disgwyliedig cynnydd, safonau a deilliannau addysgol.

**Canlyniad:-**
**Cafodd y Pwyllgor gipolwg ar ba mor gyffredin y mae problemau ymddygiad ar draws ysgolion, a chael ymwybyddiaeth o'r ystod o raglenni cymorth sydd ar waith i ddysgwyr gan ddefnyddio ethos ymarferion cynhwysol a dulliau adferol i annog perthnasoedd cadarnhaol rhwng athrawon, disgyblion a rhieni/gwarcheidwaid**

### 2.6.2 Lefelau Presenoldeb Ysgolion

Ym mis Mehefin 2023 cafodd y Pwyllgor adroddiad i'w ystyried a oedd yn manylu ar lefelau presenoldeb ar draws ysgolion Sir Gaerfyrddin ers 2012. Amlygwyd yr effaith negyddol sylweddol ar bresenoldeb ysgolion a achoswyd gan y pandemig coronafeirws i'r Pwyllgor, a bod ysgolion yn cael anawsterau wrth ymgysylltu unwaith eto â dysgwyr a theuluoedd. Roedd presenoldeb ar draws ysgolion Sir Gaerfyrddin yn parhau i fod yn is na'r lefelau cyn y pandemig, ac roedd salwch yn cyfrif am y mwyafrif o absenoldebau.

Roedd yr adroddiad yn nodi cymorth yr Awdurdod Lleol a roddir i ysgolion i wella a chynnal presenoldeb da disgyblion drwy waith ymgynghorol a gweithredol, a chafodd ei ategu gan ddata ystadegol i ddangos effaith ymyriadau o'r fath.

**Canlyniad:**
**Cafodd y Pwyllgor gipolwg ar yr ystod o gynigion eraill a gyflwynwyd gan yr Awdurdod i ymgysylltu â disgyblion drwy becynnau priodol a phwrpasol o strategaethau cymorth ac ymyrraeth.**

**Cymeradwyodd y Pwyllgor yr ymgyrchoedd marchnata ymddygiad a phresenoldeb gan yr Awdurdod i gyfleu pwysigrwydd presenoldeb rheolaidd i'r ysgol i rieni a gwarcheidwaid**.

### 2.6.3 Arolygiad Estyn Gwasanaethau Addysg Sir Gaerfyrddin

Ym mis Hydref 2023 cafodd y Pwyllgor i'w ystyried canlyniad arolygiad Estyn o Wasanaethau Addysg Sir Gaerfyrddin a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2023 yn unol â fframwaith Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol.

Roedd yr arolygiad yn cynnwys 3 phrif faes yn ymwneud â chanlyniadau, gwasanaethau addysg ac arweinyddiaeth a rheolaeth a daeth i'r casgliad bod gwasanaethau addysg Sir Gaerfyrddin yn cael eu harwain yn gadarn gan uwch-arweinwyr ac aelodau etholedig, a oedd yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer addysg o fewn yr awdurdod.  Nododd yr arolygiad ymhellach berthnasoedd gweithio cynhyrchiol gydag ysgolion a darparwyr eraill, a bod prosesau gwella ysgolion gwerthfawr a bwriadus ar waith.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y meysydd i'w gwella a oedd wedi arwain at gyfanswm o 3 argymhelliad mewn perthynas â gwella presenoldeb disgyblion yn ysgolion yr Awdurdod, cryfhau prosesau gwella ysgolion, yn enwedig ar gyfer ysgolion uwchradd a mireinio dulliau ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella.

Wrth ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr adroddiad, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am y cynnydd a wnaed mewn ymateb i bob argymhelliad ac fe'i sicrhawyd wrth nodi bod gwaith eisoes wedi dechrau i roi sylw i agweddau ar yr argymhellion cyn yr arolygiad gan eu bod eisoes wedi'u nodi drwy brosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yr Awdurdod.  Cydnabu'r Pwyllgor yr ymrwymiad clir i wella presenoldeb disgyblion yn yr Awdurdod, ac roedd cynnydd eisoes wedi'i gyflawni mewn llawer o ysgolion.  Awgrymwyd y gellid darparu cymorth i'r gwasanaeth addysg i fynd i'r afael â'r mater cenedlaethol hwn drwy ddull partneriaeth sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol.

**Canlyniadau:**
**Croesawodd y Pwyllgor y dyfarniadau cadarnhaol a nodwyd yn yr adroddiad a oedd yn rhoi ffocws clir i'r Awdurdod o ran darparu gwasanaethau addysg ar gyfer Sir Gaerfyrddin.**

**Cynhaliodd y Pwyllgor ddau weithdy yn ystod cyfnod y cyngor i gefnogi'r Awdurdod i wella lefelau presenoldeb ysgolion drwy adolygiad o'r data sydd ar gael, darparu adborth ac adnabod arfer gorau er mwyn llywio'r strategaeth Addysg a Gwasanaethau Plant.**

### 2.6.4 Adolygiad o Dderbyn Disgyblion i Ysgolion Cynradd (Polisi Plant sy'n Codi'n 4 Oed)

Bu'r Pwyllgor, yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2023, yn ystyried adroddiad a oedd yn adolygu trefniadau'r Awdurdod ar gyfer derbyn disgyblion i ysgolion cynradd. Roedd yr adroddiad wedi'i baratoi mewn ymateb i'r argymhellion a oedd yn deillio o'r Adolygiad Gorchwyl a Gorffen o'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer addysg blynyddoedd cynnar, gofal plant a chyfleoedd chwarae a gynhaliwyd gan y Pwyllgor yn 2018/19.

Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r trefniadau presennol ar gyfer derbyniadau meithrin ac amser llawn i ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin, ynghyd â chymhariaeth o'r trefniadau derbyn amser llawn a rhan-amser â phob Awdurdod Lleol arall yng Nghymru yn seiliedig ar ymchwil. Yn hyn o beth, cadarnhawyd mai Sir Gaerfyrddin oedd yr unig Awdurdod yng Nghymru â pholisi 'plant sy'n codi'n 4 oed'. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r heriau sy'n cael eu hwynebu o ran lle a chapasiti ysgolion, anghysondeb ag Awdurdodau eraill, darpariaeth meithrin a blynyddoedd cynnar, cyllid a'r broses dderbyn ei hun.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried goblygiadau posibl unrhyw newidiadau i'r trefniadau presennol o ran canfyddiad rhieni, darpariaeth deg, ailddosbarthu cyllid a gofynion ymgynghori.

**Canlyniad:**

**Cafodd yr adborth a ddarparwyd gan y Pwyllgor mewn perthynas â'r Adolygiad Derbyn Disgyblion i Ysgolion Cynradd (Plant sy'n Codi'n 4 Oed) eu hanfon at y Cabinet i'w hystyried.**

**O ganlyniad, penderfynodd y Cabinet yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mawrth 2024, fod Sir Gaerfyrddin, fel yr Awdurdod Derbyn ar gyfer ysgolion cynradd cymunedol ac ysgolion cynradd gwirfoddol a reolir, yn parhau i ddileu'r Polisi Plant sy'n Codi'n 4 Oed ac yn gweithredu Opsiwn B (fel y manylir arno yn yr adroddiad) o 1 Medi 2025 h.y. derbyn dysgwyr amser llawn i ysgolion cynradd yn y tymor ysgol yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.**

### 2.6.5 Adolygiad o Drefniadau Staff Cyflenwi yn Sir Gaerfyrddin

Ym mis Rhagfyr 2023, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn manylu ar y trefniadau staff cyflenwi presennol ar draws ysgolion Sir Gaerfyrddin. Gofynnwyd i'r adroddiad adolygu cost-effeithiolrwydd y ddarpariaeth allanol bresennol ac archwilio hyfywedd posibl darpariaeth gwasanaeth mewnol.

Roedd yr adroddiad yn nodi'r trefniadau, y costau a'r modelau amgen posibl ar gyfer darparu staff cyflenwi. Yn hyn o beth, roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn nodi y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithredu Cronfa Athrawon Cyflenwi Genedlaethol gyda llwyfan digidol mewn ymdrech i ddatblygu opsiynau ar gyfer model cynaliadwy o addysgu cyflenwi gyda gwaith teg ledled Cymru. Nodwyd y byddai gweithredu ar ddull fesul cam yn dilyn dadansoddiad o'r peilot yn Awdurdod Lleol Ynys Môn.

Cydnabu'r Pwyllgor fod dadansoddiad cychwynnol yn awgrymu na fyddai unrhyw un o'r modelau amgen a nodir yn yr adroddiad yn arwain at arbedion i ysgolion na'r Awdurdod. Fodd bynnag, gallai newid dull o ymdrin ag absenoldebau athrawon tymor byr gyda Goruchwylydd Cyflenwi gynhyrchu rhai arbedion effeithlonrwydd gyda'r effaith leiaf posibl ar ddisgyblion a'u dysgu. Yn unol â hynny, mynegwyd y dylai'r ffordd ymlaen ymgorffori dull cyfunol, gyda phrosesau rheoli

absenoldeb gwell i leihau nifer yr athrawon cyflenwi sydd ei angen, ynghyd â sicrhau bod defnyddio athrawon cyflenwi yn effeithiol o ran cost.

**Canlyniad:**
**Penderfynodd y Pwyllgor ystyried diweddariad pellach ar ôl cwblhau'r astudiaeth beilot a gynhaliwyd yn Awdurdod Lleol Ynys Môn.**

**Cytunwyd hefyd bod y sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor mewn perthynas â'r adolygiad o drefniadau staff cyflenwi yn Sir Gaerfyrddin yn cael eu hanfon at y Pwyllgor i'w hystyried.**

### 2.6.6 Diweddariad ynghylch Recriwtio a Staffio mewn Ysgolion

Bu'r Pwyllgor, yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2023, yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad ynghylch y sefyllfa bresennol o ran recriwtio a chadw staff mewn ysgolion. Roedd yr adroddiad yn nodi ystadegau ar gyfer y sir, ynghyd â ffigurau cymharol ar lefel genedlaethol yn ymwneud â recriwtio a chadw athrawon, nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg, nifer y myfyrwyr sy'n gwneud cais am Dystysgrifau Ôl-raddedig yn Gymraeg a Saesneg a'u cwblhau a throsolwg o'r cyd-destun arweinyddiaeth presennol.

Wrth adolygu'r adroddiad, rhoddwyd crynodeb i'r Pwyllgor o'r amrywiaeth o fesurau sy'n cael eu harchwilio i fynd i'r afael â'r heriau sylweddol yng nghyd-destun rhaglenni datblygiad proffesiynol, ymgyrchoedd marchnata a'r broses recriwtio o fewn y Cyngor. Rhoddwyd ystyriaeth fanwl i'r argymhellion cyffredinol a nodwyd yn yr adroddiad.

**Canlyniad:**
**Mae'r sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor mewn perthynas â recriwtio a chadw staff mewn ysgolion yn cael eu nodi gan yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg a'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant.**

**Cynhaliodd y Pwyllgor weithdy ar ffederasiynau ysgolion ym mis Mawrth 2024 a oedd yn rhoi gwell dealltwriaeth i aelodau o sut mae ffederasiynau yn gweithredu, y rhesymau dros wneud hynny a'r effaith. Yn hyn o beth, cafodd y Pwyllgor fewnwelediad i ffederasiynau ysgolion a'r gydberthynas rhwng goblygiadau recriwtio a chyllideb yng nghyd-destun y Rhaglen Moderneiddio Addysg.**

### 2.6.7 Gwasanaeth Cerdd

Ym mis Rhagfyr 2023 cafodd y Pwyllgor adroddiad i'w ystyried a oedd yn rhoi trosolwg o ddarpariaeth statudol ac anstatudol y gwasanaeth cerdd yng Nghyngor Sir Caerfyrddin, ynghyd â'r effaith gadarnhaol ar lefelau personol a chymdeithasol.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar yr amrywiaeth o fuddion sy'n deillio o addysg gerddorol a nododd ei bwysigrwydd yng nghyd-destun y Cwricwlwm i Gymru a'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth. At hynny, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am yr ystod o gymorth a gynigir i ysgolion cynradd ac uwchradd drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth blynyddol am ystod eang o ddisgyblaethau, yn ogystal â'r cymorth corfforaethol a chymunedol a ddarperir gan y gwasanaeth cerdd bob blwyddyn. Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi na chodir unrhyw daliadau ar ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim am wersi'r gwasanaeth cerdd a benthyg offerynnau a oedd yn sicrhau cyfle cyfartal i'r holl ddisgyblion.

Ystyriwyd cynlluniau'r dyfodol ar gyfer cymorth cymunedol a oedd yn cynnwys cyfleoedd i weithio gyda'r tîm Dysgu Oedolion a'r Gymuned i ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr o bob oed ac ymgysylltu mwy â'r cyhoedd yn gyffredinol.

**Canlyniad:**
**Cymeradwyodd y Pwyllgor y ddarpariaeth gwasanaeth cerdd o fewn y Cyngor am ei gyfraniad rhagorol i ddatblygiad dysgwyr ledled Sir Gaerfyrddin a phwysleisiodd bwysigrwydd addysg gerddorol am sawl rheswm, gan gynnwys iechyd a llesiant, meithrin hyder, gwerthfawrogi diwylliannol, datblygiad gwybyddol a chreadigrwydd.**

### 2.6.8 PRYDAU YSGOL AM DDIM I BOB PLENTYN YSGOL GYNRADD

Bu'r Pwyllgor, yn ei gyfarfod ym mis Mai 2024, yn ystyried adroddiad a oedd yn manylu ar y cynnydd sydd wedi'i wneud wrth gyflwyno Prydau Ysgol am Ddim i Bob Disgybl Ysgol Gynradd (UPFSM) ar draws Sir Gaerfyrddin. Roedd yr adroddiad yn nodi perfformiad yr Awdurdod o ran graddfa'r broses gyflwyno yn erbyn targedau Llywodraeth Cymru, trefniadau ariannu, gofynion dietegol, goblygiadau staffio a materion capasiti.

Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi bod y cynnig UPFSM wedi'i weithredu ar draws 97 lleoliad addysgol y sir o fewn dyddiadau targed Llywodraeth Cymru. Adolygodd y Pwyllgor y pwysau staffio parhaus yn y gwasanaeth a waethygwyd ymhellach yn sgil cyflwyno UPFSM. Cydnabu'r Aelodau mai demograffig a sgiliau'r gweithlu presennol oedd y risg barhaus fwyaf i'r gwasanaeth ac roeddent yn falch o nodi bod y sefyllfa'n cael ei monitro'n agos, a bod trefniadau wrth gefn ar waith i sicrhau y gellid paratoi a dosbarthu prydau ysgol poeth i ysgolion yn barod ar gyfer amser cinio.

Wrth gydnabod bod y Grant Datblygu Disgyblion yn fesur pwysig i bob ysgol ledled Cymru gefnogi plant agored i niwed, mynegwyd pryderon y byddai cyflwyno UPFSM yn cael effaith andwyol ar lefel y cyllid Grant Datblygu Disgyblion sydd ar gael i ysgolion gan nad oedd yn ofynnol i rieni/gwarcheidwaid wneud cais am brydau ysgol am ddim mwyach. Nododd y Pwyllgor â diddordeb fod Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn edrych ar ei mecanwaith cyllid grant ar gyfer ysgolion a bod ymarfer ymgynghori'n cael ei gynnal gyda golwg ar sicrhau bod y ffigurau amddifadedd sydd gan Lywodraeth Cymru yn adlewyrchu'r heriau y mae ysgolion yn eu hwynebu.

**Canlyniad:**
**Cymeradwyodd y Pwyllgor y camau a gymerwyd i weithredu'r ddarpariaeth o Brydau Ysgol am Ddim i Bob Disgybl Ysgol Gynradd (UPFSM) ledled Sir Gaerfyrddin o fewn dyddiadau targed Llywodraeth Cymru.**

**Cytunodd y Pwyllgor i ystyried adroddiad diweddaru maes o law ar Ffrydiau Cyllid Llywodraeth Cymru.**

## 2.7 Pobl Ifanc

### 2.7.1 Diweddariad ynghylch y Cynnig Gofal Plant i Gymru

Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2024, cafodd y Pwyllgor adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar Gynnig Gofal Plant Cymru, ei nod oedd cefnogi teuluoedd i ddarparu gofal plant hyblyg, fforddiadwy o ansawdd uchel i hyrwyddo adfywio economaidd, lleihau'r

pwysau ar incwm teuluoedd a helpu rhieni i gymryd rhan mewn gwaith, a thrwy hynny lleihau risg y teulu o dlodi.Cafodd y cynllun, a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2019, ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rhieni cymwys gan geisio gwella llesiant plant drwy ddarparu profiadau gofal plant cadarnhaol a chyfoethog.

Darparwyd crynodeb o gyflwyniad y cynllun i'r Pwyllgor, a oedd yn cynnwys cyflwyno gwasanaeth digidol y Cynnig Gofal Plant Cenedlaethol yn Haf 2022 i ddarparu proses mwy syml ac unffurf o ran cofrestru a chyflwyno cais, a gwasanaeth hawliadau taliadau cyflym wythnosol i ddarparwyr.

Roedd yr adroddiad yn nodi'r ystadegau ar gyfer nifer y ceisiadau a gymeradwywyd ac roedd yn manylu ar y cymorth sydd ar gael ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol o ran y Grant Cymorth Ychwanegol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Bu'r Pwyllgor hefyd yn adolygu'r taliadau a wnaed i Ddarparwyr Gofal Plant Sir Gaerfyrddin a oedd yn cynrychioli arbediad sylweddol i lawer o deuluoedd lleol sy'n gweithio ac sydd wedi helpu i gynnal darparwyr gofal plant lleol, yn enwedig yn ystod y pandemig coronafeirws.

**Canlyniad:**
**Derbyniwyd yr adroddiad cynnydd.**

**Cymeradwyodd y Pwyllgor y strategaeth farchnata a chyfathrebu gadarn i hyrwyddo'r cynllun mewn modd cyson a'r ymdrechion i leihau'r rhwystrau i gael mynediad i'r cynllun yn unol â'i nodau a'i amcanion.**

### 2.7.2 Diweddariad ynghylch gwaith Cyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin

Bu'r Pwyllgor, yn ei gyfarfod ym mis Mai 2024, yn ystyried diweddariad ynghylch gwaith Cyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin yn unol â'r pedwar prif faes cynrychiolaeth mewn perthynas ag Addysg, Cyffredinol, Diddordeb Arbennig a Senedd Ieuenctid Cymru.

Anerchodd cynrychiolwyr o'r Cyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin y Pwyllgor i ddarparu crynodeb o'r ystod o gyfleoedd a gynigir gan y Cyngor Ieuenctid a oedd yn cynnwys trafodaethau polisi, prosiectau cymunedol ac ymgyrchoedd dan arweiniad ieuenctid, a'r nod oedd creu newid cadarnhaol ac adeiladu cymdeithas fwy cynhwysol a bywiog.

**Canlyniad:**
**Cafodd y Pwyllgor gipolwg ar yr amrywiaeth o waith prosiect a wnaed gan y Cyngor Ieuenctid i hyrwyddo materion pwysig fel bwlio, hawliau plant, iechyd meddwl, urddas mislif a thrais domestig. At hynny, cafodd y Pwyllgor wybodaeth am lwyddiannau, digwyddiadau, cyflawniadau ac ymgyrchoedd nodedig y Cyngor Ieuenctid a oedd yn dangos effaith a phwysigrwydd cyfranogiad pobl ifanc mewn prosesau gwneud penderfyniadau a gwneud penderfyniadau yn lleol, yn genedlaethol a thu hwnt.**

## 2.8 Y Gymraeg

### 2.8.1 Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg – Adroddiad Blynyddol

Cafodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg i'w ystyried a oedd yn manylu ar y cynnydd a wnaed yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23 wrth weithredu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 10 mlynedd (2022-2032) yr Awdurdod.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cynllun gweithredu'r Awdurdod a oedd yn nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r 7 canlyniad a nodwyd yn y Cynllun i hwyluso dysgu mwy o blant meithrin a derbyn trwy gyfrwng y Gymraeg; mwy o bobl ifanc yn astudio ar gyfer cymwysterau yn y Gymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg; cynnydd yn y ddarpariaeth o addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol; a chynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu'r Gymraeg (fel pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cyflwynwyd crynodeb o'r gwaith parhaus i drosglwyddo ysgolion i system categoreiddio ieithyddol newydd Llywodraeth Cymru yn yr adroddiad hefyd, ynghyd â throsolwg o'r sefyllfa bresennol o ran Tîm Datblygu'r Gymraeg, Safonau, gweithio mewn partneriaeth, cyllid grant a datblygiadau yn y dyfodol.

Cododd y Pwyllgor bryderon ynghylch y nifer isel o athrawon sy'n gallu cyflwyno dosbarthiadau drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn unol â hynny, cafwyd trosolwg o'r mentrau a weithredwyd i gyflawni'r amcan o gynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu'r Gymraeg fel pwnc a thrwy gyfrwng y Gymraeg, a darparwyd rôl asiantaethau allanol yng nghyd-destun yr anawsterau parhaus o ran recriwtio athrawon yn genedlaethol. Rhoddwyd diweddariad ynghylch y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion hefyd.

**<u>Canlyniad:</u>**

**Ar gais y Pwyllgor, ystyriwyd diweddariad ynghylch y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion yn y Sesiwn Datblygu a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2024. Adolygodd y Pwyllgor yr opsiynau sydd ar gael i'r Awdurdod yn hyn o beth a rhoddodd adborth o ran darparu'r Gwasanaeth yn y dyfodol.**

**Bydd diweddariad pellach ynghylch darpariaeth Cymraeg i Oedolion yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor yn ystod 2024/25.**

# 3. Gweithgarwch Craffu Arall

## 3.1 Gorchwyl a Gorffen

Ni wnaeth y Pwyllgor gynnal adolygiad gorchwyl a gorffen yn ystod 2023/24.

## 3.2 Ymweliadau Safle

Ym mis Ebrill 2024 cynhaliodd y Pwyllgor ymweliadau safle ag Ysgol Gynradd Cefneithin ac Ysgol Gynradd Gors-las. Rhoddodd yr ymweliadau gipolwg i'r Pwyllgor ar effaith yr amgylchedd dysgu ar ddatblygiad disgyblion.

| **<u>Canlyniad</u>:** **Cynhelir Ymweliadau Safle Pellach yn 2024/25 a fydd yn hwyluso'r Pwyllgor wrth iddo ystyried y Rhaglen Moderneiddio Addysg.** |
|---|

## 3.3 Sesiynau Datblygu

Yn ystod blwyddyn y cyngor 2023/24, gwahoddwyd Aelodau'r Pwyllgor i'r sesiynau/seminarau datblygu canlynol a hwyluswyd gan yr Awdurdod:

| Dyddiad | Sesiwn / Seminar Datblygu |
|---|---|
| 21/06/23 | Atgyweiriadau Tai |
| 07/08/23 | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda – Ymgynghoriad ar Wasanaethau Brys ac Argyfwng i Blant a Phobl Ifanc yn Ysbytai Llwynhelyg a Glangwili |
| 13/09/23 | Cymorth Trechu Tlodi |
| 08/11/23 | Rheoli'r Trysorlys |
| 22/11/23 | Deallusrwydd Artiffisial a Strategaeth Ddigidol TGCh |
| 30/11/23 | Hyfforddiant Geodiscoverer |
| 06/12/23 | Diweddariadau ynghylch y Gwasanaeth - Cyfarwyddiaeth Lle a Seilwaith |
| 07/12/23 | Hyfforddiant Geodiscoverer |
| 08/12/23 | Trawsnewid Digidol |
| 09/01/24 | Deallusrwydd Artiffisial a Strategaeth Ddigidol |
| Ionawr 24 | Ymgyngoriadau Cyllideb Amrywiol |
| 23/02/24 | Hyfforddiant Gwrth-hiliaeth (hefyd 26/04 a 07/03) |
| 06/03/24 | Cyfrifoldeb Llifogydd |
| 08/05/24 | Diogelu Corfforaethol |

Yn ogystal â'r sesiynau / seminarau Datblygu Corfforaethol uchod, cynhaliodd y Pwyllgor y sesiynau pwrpasol canlynol:

| Dyddiad | Sesiwn / Seminar Datblygu |
|---|---|
| 08/02/24 a 21/02/24 | **<u>Presenoldeb mewn Ysgolion</u>**<br><br>Cynhaliwyd dau weithdy presenoldeb ysgol yn dilyn argymhelliad Estyn o fewn y maes hwn fel rhan o'i arolygiad o wasanaethau addysg yr Awdurdod.<br><br>Ceisiodd y Pwyllgor gefnogi'r Gwasanaethau Addysg i wella lefelau presenoldeb ysgolion drwy adolygiad o'r data sydd ar gael a nodi arfer gorau. Aeth cynrychiolwyr ysgol o Ysgol Uwchradd y Frenhines |

| | |
|---|---|
| | Elisabeth i'r gweithdy i ddarparu astudiaethau achos ar y camau a gymerwyd i wella presenoldeb disgyblion.<br><br>**Canlyniad:**<br>Cynorthwyodd yr adborth llafar a roddwyd i Swyddogion yn y gweithdai wrth lunio strategaeth y gwasanaeth addysg ar gyfer y dyfodol. |
| 20/03/24 | **Ffederasiynau Ysgolion**<br>Roedd y sesiwn ddatblygu yn nodi'r fframwaith ar gyfer gweithredu ffederasiynau ysgolion, ynghyd â manteision ac anfanteision ffederasiynau. Aeth cynrychiolwyr ysgolion o ffederasiwn Cwrt Henri / Ffair-fach / Talyllychau a ffederasiwn Trimsaran / y Ffwrnes i'r sesiwn i rannu profiadau a galluogi'r Pwyllgor i gymharu ffederasiynau caled a meddal.<br><br>**Canlyniad:**<br>Rhoddodd y sesiwn ddatblygu gipolwg i'r Pwyllgor ar sut mae ffederasiynau yn gweithredu, y rhesymau dros ffedereiddio a'i effaith. Bydd y ddealltwriaeth hon yn cynorthwyo'r Pwyllgor wrth iddo ystyried y Rhaglen Moderneiddio Addysg. |
| 10/05/24 | **Adolygiad o'r prosesau ynghylch trosglwyddo disgyblion rhwng ysgolion**<br><br>Roedd y sesiwn ddatblygu yn nodi'r trefniadau cyd-destun a'r costau sy'n gysylltiedig â throsglwyddo disgyblion i leoliadau sirol o'r tu allan a rhwng ysgolion yn y sir.<br><br>**Canlyniad:**<br>Cafodd y Pwyllgor well dealltwriaeth o'r broses a rhoddodd adborth llafar i Swyddogion i lywio polisïau newydd arfaethedig yr Awdurdod mewn perthynas â Symudiadau wedi eu Rheoli a phrotocol Mynediad Teg. |

# 4. Effaith

## 4.1 Sut mae craffu wedi gwneud gwahaniaeth eleni?

Mae'r Cabinet yn gwneud y rhan fwyaf o'r penderfyniadau a wneir gan yr awdurdod. Mae'r broses graffu'n rhoi cyfle i'r 65 o gynghorwyr anweithredol eraill ddylanwadu ar y penderfyniadau hynny a gweithredu fel 'cyfaill beirniadol”. Mae Craffu Cyn Gwneud Penderfyniadau yn arbennig o ddylanwadol yn hyn o beth gan ei fod yn rhoi cyfle i Bwyllgorau Craffu ystyried a gwneud sylwadau ar bolisïau a materion sy'n dod i'r amlwg cyn iddynt gael eu hystyried gan y Cabinet. Mae craffu hefyd yn cynorthwyo i sicrhau bod polisïau'r Cyngor yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac yn annog cydweithio effeithiol â chyrff allanol.

Mae'r broses Graffu yn chwarae rôl allweddol wrth wella'r gwasanaethau a ddefnyddir gan bobl a phlant Sir Gaerfyrddin. Mae'r swyddogaeth graffu yn ddefnyddiol o ran sicrhau bod

polisïau’r Cyngor yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac yn annog cydweithio effeithiol â chyrff allanol. Mae cyfraniad trigolion lleol, sefydliadau a phartneriaid yn y gymuned yn rhan bwysig o'r broses graffu ac mae ein Cynghorwyr wedi ymrwymo i ymateb i sylwadau a phryderon trigolion.

Mae Craffu Cyn Gwneud Penderfyniadau yn rhoi cyfle i bob Pwyllgor Craffu roi mewnbwn cyn i'r adroddiadau gael eu hystyried gan y Cabinet a dyma lais y bobl. Yn ystod blwyddyn y cyngor 2023/24, mae'r Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg wedi cael effaith gadarnhaol mewn sawl ffordd, gan gynnwys:-

- Cyfrannu at yr Adolygiad Derbyn Disgyblion i Ysgolion Cynradd i lywio strategaeth yr Awdurdod yn y dyfodol.
- Cefnogi'r Awdurdod yn ei ymdrechion i wella lefelau presenoldeb ysgolion drwy adolygiad o'r data sydd ar gael, darparu adborth a nodi arfer gorau i lywio polisïau'r Awdurdod yn y dyfodol.
- Cyfrannu at ddatblygu polisïau newydd arfaethedig yr Awdurdod mewn perthynas â Symudiadau wedi eu Rheoli a phrotocol Mynediad Teg.
- Darparu sylwadau ac arsylwadau i lywio strategaeth a darpariaeth y gwasanaeth Cymraeg i Oedolion yn y dyfodol.
- Ymgymryd â'i rôl i fonitro a sicrhau bod y materion cyllidebol yn cael sylw a'u rheoli'n effeithiol.
- Adolygu trefniadau'r Awdurdod a blaenoriaethau uchelgeisiol i sicrhau bod y plant, y bobl ifanc a'r dysgwyr o bob oed yn Sir Gaerfyrddin yn hapus, yn ddiogel ac yn ffynnu, ac yn cyflawni eu potensial personol, cymdeithasol a dysgu.

## 5. Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Mae'r swyddogaeth graffu yn rhoi cyfle i'r cyhoedd gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Awdurdod lle gall aelodau o'r cyhoedd ofyn am i eitemau gael eu gosod ar agenda cyfarfod y Pwyllgor. Mae'r rhai sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin, neu sy'n berchen ar fusnes neu'n cael eu cyflogi yn y sir, hefyd yn cael gofyn cwestiynau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Craffu.

Er na dderbyniodd y Pwyllgor unrhyw awgrymiadau o bynciau posibl gan y cyhoedd yn ystod 2023/24, roedd Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor yn cynnwys ystod o bynciau a oedd yn gofyn am ymgynghori/cyfranogi cyhoeddus.

Er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o Bwyllgorau Craffu a gallu'r cyhoedd i gyflwyno pynciau i'w trafod, cyhoeddir Blaengynlluniau Gwaith Pwyllgorau Craffu yr Awdurdod, a manylion ynghylch sut y gall y cyhoedd gymryd rhan, ar wefan yr Awdurdod:- https://www.carmarthenshire.gov.wales/home/council-democracy/committees-meetings/scrutiny/#.Xp7Am6aQxMs

Yn ystod blwyddyn y cyngor, rhoddodd is-adran Cyfathrebu'r Awdurdod gymorth marchnata digidol i'r swyddogaeth Graffu a hyrwyddodd fanylion yr eitemau arfaethedig a allai fod o ddiddordeb i'r cyhoedd mewn ymgais i godi ymwybyddiaeth a chyfranogiad y cyhoedd.

Gwahoddir y cyhoedd, drwy nifer o wahanol ffyrdd, i gymryd rhan yn y broses Graffu ac i dynnu sylw at unrhyw faterion sy'n peri pryder.

## 6. Heriau

Parhaodd yr adran Addysg a Gwasanaethau Plant i fod dan bwysau drwy gydol blwyddyn y cyngor o ganlyniad i gyfyngiadau cyllidebol ac effaith y pandemig coronafeirws. Serch hynny, mae'r adran wedi addasu a datblygu atebion arloesol yn ystod amgylchiadau na welwyd eu tebyg o'r blaen i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc ledled Sir Gaerfyrddin. Mae'r Pwyllgor wedi parhau i fod yn adeiladol yn ei rôl o ran craffu ar berfformiad, sydd wedi hwyluso'r adran ac wedi cyfrannu'n gadarnhaol at bolisïau a phenderfyniadau. Mae wedi bod yn fater o gydbwysedd i'r Pwyllgor, rhwng cyflawni ei ddyletswyddau craffu a pheidio ag effeithio ar ariannu gwasanaethau rheng flaen.

## 7. Gwaith yn y Dyfodol

Gan fod yr Awdurdod yn parhau i adfer yn dilyn y pandemig coronafeirws, mae'n amlwg bod y Pwyllgor wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod blwyddyn y cyngor a bydd yn parhau i ganolbwyntio ar bynciau lle bydd cyfraniadau'r aelodau'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol i ysgogi gwelliannau yn y gwasanaeth. Er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o amser y cyfarfodydd, mae'r Pwyllgor yn awyddus i barhau i weithredu egwyddorion y Ganolfan Lywodraethu a Chraffu er mwyn cael proses graffu syml a phenodol.

Bydd gwaith y Pwyllgor yn ystod blwyddyn y cyngor 2024/25 yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor mewn sesiwn cynllunio datblygu a bydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd fel rhan o fonitro'r Blaengynllun Gwaith yn ystod y flwyddyn.

Er mwyn gwella swyddogaeth graffu'r Awdurdod, bydd aelodau'n parhau i fynd i sesiynau datblygu, yn gofyn am gyngor y swyddogion lle y bo'n briodol ac yn manteisio'n llawn ar drafodaeth anffurfiol cyn cyfarfodydd.

## 8. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu

Mae’r cymorth a roddir i swyddogaeth graffu Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael ei ddarparu gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd yn yr Is-adran Gweinyddiaeth a’r Gyfraith yn Adran y Prif Weithredwr. Mae’r cymorth a roddir i’r swyddogaeth graffu yn cynnwys y canlynol:-

- llunio ac anfon agendâu ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu yn unol â'r Blaengynlluniau Gwaith;
- darparu cymorth a chyngor cyfansoddiadol i'r Pwyllgorau Craffu ac i aelodau'r Pwyllgorau hynny yn ogystal â llunio cofnodion eu cyfarfodydd a sicrhau bod unrhyw faterion sy'n codi o'r cyfarfodydd hynny yn cael eu gweithredu;
- rhoi cymorth a chyngor mewn perthynas â swyddogaethau Pwyllgorau Craffu'r Cyngor i aelodau'r Cyngor a'i swyddogion;
- rheoli datblygiad strategol y swyddogaeth Graffu yn Sir Gaerfyrddin trwy ymwneud â rhwydweithiau a mentrau Craffu cenedlaethol a rhanbarthol, cefnogi Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu, a chyfarfodydd y Cadeiryddion

ac Is-gadeiryddion Craffu gyda'r Cabinet;

- rhoi cyngor a chefnogaeth i weithredu gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, wrth i ganllawiau gael eu cyhoeddi;
- rheoli cydlyniad a datblygiad blaengynlluniau gwaith y Pwyllgorau Craffu ar y cyd ag aelodau'r Pwyllgorau Craffu;
- rheoli a chydlynu gwaith adolygu'r swyddogaeth Graffu, gan gynnwys gweinyddu Grwpiau Gorchwyl a Gorffen ym maes craffu, cynorthwyo i lunio adroddiadau ar y cyd â'r grwpiau, a chynorthwyo i weithredu a monitro'r adolygiadau a gwblhawyd.
- Cynorthwyo â rhaglen datblygu aelodau'r pwyllgorau craffu.

I gael rhagor o wybodaeth am graffu yn Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys blaengynlluniau gwaith, adroddiadau Gorchwyl a Gorffen ac Adroddiadau Blynyddol, ewch i wefan y Cyngor Sir: www.sirgar.llyw.cymru/craffu.

I gysylltu â'r Uned Gwasanaethau Democrataidd, ffoniwch 01267 224028 neu anfonwch neges e-bost at craffu@sirgar.gov.uk.

## 9. Presenoldeb

Mae presenoldeb Aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg yn ystod blwyddyn y cyngor 2023/24 yn cael ei ddangos yn y tabl isod. Cynhaliwyd cyfanswm o bum cyfarfod yn ystod y cyfnod adrodd.

| Aelod y Pwyllgor Craffu | Cyfarfodydd a fynychwyd | % |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Sue Allen | 5 [o 5] | 100% |
| Y Cynghorydd Liam Bowen | 3 [o 5] | 60% |
| Y Cynghorydd Kim Broom | 4 [o 5] | 80% |
| Y Cynghorydd Lewis Davies* | 3 [o 4] | 75% |
| Y Cynghorydd Peter Hughes Griffiths | 5 [o 5] | 100% |
| Y Cynghorydd Betsan Jones | 5 [o 5] | 100% |
| Y Cynghorydd Carys Jones | 5 [o 5] | 100% |
| Y Cynghorydd Dot Jones | 5 [o 5] | 100% |
| Y Cynghorydd Hefin Jones | 4 [o 5] | 80% |
| Y Cynghorydd Jean Lewis | 4 [o 5] | 80% |
| Y Cynghorydd Sean Rees | 4 [o 5] | 80% |
| Y Cynghorydd Edward Skinner | 5 [o 5] | 100% |
| Y Cynghorydd Michael Thomas* | 4 [o 4] | 100% |
| Y Cynghorydd Janet Williams* | 1 [o 1] | 100% |

| Cynrychiolwyr Rhiant-lywodraethwyr | Cyfarfodydd a Fynychwyd | % |
|---|---|---|
| Ashley Butcher* | 2 [o 2] | 100% |
| Mr Anthony Enoch | 5 [o 5] | 100% |
| Mrs Felicity Healy-Benson* | 2 [o 2] | 100% |
| **Cynrychiolwyr yr Eglwys** | **Cyfarfodydd a Fynychwyd** | **%** |
| Ms Mari Hughes | 1 [o 1] | 100% |
| Mrs Vera Kenny | 5 [o 5] | 100% |
| Y Parchedig Delyth Richards** | 0 [o 4] | 0% |

| Dirprwyon | Cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|
| Y Cynghorydd Mansel Charles | 1 |
| Y Cynghorydd Michelle Donoghue | 1 |
| Y Cynghorydd Alex Evans | 1 |

| Aelodau'r Cabinet | Cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|
| Y Cynghorydd Glynog Davies (Addysg a'r Gymraeg) | 5 [o 5] |
| Y Cynghorydd Alun Lenny (Adnoddau) | 1 [o 1] |

***Nodiadau:**

Nid oedd y Cynghorydd Lewis Davies yn aelod o'r pwyllgor yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 09.10.2023

Roedd y Cynghorydd Michael Thomas yn aelod tan 31.01.2024

Cymerodd Mari Hughes le'r Parchedig Delyth Richards ar 08.02.2024

Tymor Ashley Butcher yn y swydd rhwng Hydref 2023 hyd at 31.03.2024

Roedd Dr Felicity Healey-Benson yn aelod tan 30.09.2023

Roedd y Cynghorydd Janet Williams yn aelod o 08.05.2024